

Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru Lewyrchus

- 1: Caffael teg a lleol:** defnyddio caffael i hybu twf cynhwysol
- 2: Gwaith teilwng:** sbarduno arferion sy'n caniatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddu
- 3: Economïau lleol:** cynorthwyo economïau lleol cynhwysol a'r economi sylfaenol
- 4: Ynni cymunedol a chymdeithas garbon isel:** galluogi sefydliadau a chymunedau i leihau allyriadau a defnyddio ynni carbon isel
- 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol:** annog sefydliadau i ddatblygu poblogaeth fedrus, addas ar gyfer newidiadau technolegol y dyfodol





Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru Lewyrchus

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

*“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd), ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac sy’n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith gweddus”.*



## Diffinio'r nod

Mae 50 mlynedd wedi mynd heibio ers i Robert Kennedy draddodi ei anerchiad hanesyddol pan hawliodd fod Cynnyrch Domestig Gros yn mesur 'popeth heblaw'r hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw'.

Er gwaethaf hynny, mae Cynnyrch Domestig Gros wedi parhau i fod o'r pwys pennaf i'r cyhoedd a gwneuthurwyr polisi fel y dull critigol o fesur cynnydd. Tra bo'r ffocws traddodiadol hwn ar dwf economaidd wedi llunio'r byd yr ydym yn ei adnabod heddiw, mae wedi gadael llawer o bobl ar ôl. Mae 1% cyfoethocaf y byd yn berchen ar 45% o gyfoeth y byd, tra bo bron i chwarter y bobl yma yng Nghymru'n byw mewn tlogi. Wrth i'r economi ehangu, felly hefyd y galw am yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu ar gyfer hyn. Mae cenedlaethau'r dyfodol mewn perygl o fyw mewn byd o anghydraddoldeb llwm a banc adnoddau naturiol gwag.

Yr hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw yw na fedrwc chi ddod o hyd i unrhyw son am Werth Ychwanegol Gros (GYC) neu Gynnyrch Domestig Gros yn niffiniad Cymreig o ffyniant; mae ein

gweledigaeth ni o ffyniant yn mesur yr hyn sydd o bwys. O fewn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nid yw llesiant economaidd yn cael blaenoriaeth dros lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, neu ddiwylliannol. Ein nod o Gymru lewyrchus yw un lle mae pobl yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a darganfod gwaith gweddus, lle rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd deg a lleol, lle mae'r economi sylfaenol yn cynhyrchu cyfoeth a chyflogaeth leol, a lle'r ydym yn symud tuag at gymdeithas garbon isel.



### Astudiaethau achos

Drwy'r holl ddogfen hon byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os byddwch yn gweld y symbol hwn.



## Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

**Caffael nwyddau a gwasanaethau mewn dulliau sy'n cynorthwyo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 1: Caffael Teg a Lleol](#))

**Cynorthwyo arferion gwaith teg drwy gyflogaeth a gwasanaethau** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 2: Gwaith gweddus](#))

**Cefnogi'r economi sylfaenol drwy gynhyrchu cyfoeth a darparu cyflogaeth** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 3: Economïau Lleol](#))

**Galluogi cymdeithas garbon isel drwy gynorthwyo ynni cymunedol a lleihau allyriadau** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 4: Cynhyrchu Ynni Cymunedol](#))

**Gweithio gydag eraill i gynorthwyo datblygiad sgiliau ar gyfer y dyfodol** ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol](#))

**Cefnogi arloesedd i ddatblygu economi addas ar gyfer y dyfodol** ([Pwnc taith ar arloesedd i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

**Defnyddio adnoddau'n effeithlon, cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang** ([Pwnc taith ar economi cylchol i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

## Gofynion statudol eraill sy'n berthnasol i'r nod hwn

**Mae caffael cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r fframwaith cyfreithiol a osodwyd gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.** Mae'r rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau sy'n contractio i ystyried ymgorffori agweddau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol mewn manylebau, amodau contract a meini prawf dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn yr amgylchedd, effeithlonrwydd ynni, brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, hybu arloesedd, a chyflogaeth a chynhwysedd cymdeithasol.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn:

- [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.](#)
- [Arweiniad ar agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol.](#)

Mae'r rheoliadau contractau cyhoeddus canlynol yn arbennig o berthnasol i'r pwnc caffael teg a lleol:

- **Mae Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn (rheoliadau 74 i 77):** yn cynnig i gomisiynwyr sydd eisiau macsimeiddio manteision lleol caffael i deilwra'r modd y maent yn gweithredu'r broses gaffael ar gyfer rhai gwasanaethau, er mwyn diwallu anghenion darparwyr lleol.
- **Mae Contractau neilltuedig (Rheoliad 77):** wedi eu dylunio i helpu sefydliadau'r trydydd sector i sefydlu eu hunain a chystadlu i ddarparu gwasanaethau ag iddynt ddimensiwn iechyd, cymdeithasol, addysgol neu ddiwylliannol.
- **Contractau neilltuedig 20 – (1)** Gall awdurdodau contractio (a) gadw'r hawl i gyfranogi mewn gweithdrefnau caffael cyhoeddus weithdai gwarchodol a gweithredwyr economaidd â'u bryd ar integreiddio'n gymdeithasol a phroffesiynol bobl anabl a phobl o dan anfantais, neu (b) drefnu i'r fath gontractau gael eu perfformio yng nghyd-destun rhaglenni cyflogaeth warchodol, ar yr amod bod o leiaf 30% o weithwyr, gweithredwyr economaidd neu

raglenni'r gweithdai hynny yn weithwyr anabl neu'n rhai o dan anfantais.

- **Rheoliad 40 (1):** Cyn cychwyn gweithdrefn gaffael, gall awdurdodau sy'n contractio gynnal ymgynghoriad marchnad gyda'r bwriad o baratoi'r caffael a rhoi gwybod i weithredwyr economaidd am eu cynlluniau a'u gofynion caffael.
- **Rheoliad 40 (3):** 'Gellir defnyddio'r fath gyngor wrth gynllunio ac arwain y weithdrefn gaffael...'
- **Ennyn ymgyfraniad defnyddwyr gwasanaethau: Rheoliad 76 (8)** '...gall awdurdodau contractio gadw mewn golwg unrhyw ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys '...anghenion penodol categorïau gwahanol o ddefnyddwyr; (ac) ennyn ymgyfraniad defnyddwyr a'u grymuso.'




Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'.

## Galluogwyr

Bydd gwireddu'r nod yn **fwy tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn contractau'n cael eu monitro – er enghraifft manteision cymunedol.
- Pan ofynnir i fusnesau adrodd ar effeithiau ehangach, yn hytrach nag allbynnau a chanlyniadau rhifiadol yn unig.
- Pan fydd yna ymgysylltu ystyrlon busnesau lleol yn natblygiad cynlluniau economaidd lleol.
- Pan fydd yna amgylchedd polisi sy'n cynorthwyo economi sylfaenol ac ymagweddau carbon isel i ddod yn rhan o'r brif ffrwd.
- Pan fydd datblygu gweithluoedd medrus, amlddisgyblaethol yn flaenoriaeth ym mhob sefydliad.



## Analluogwyr

Bydd gwireddu'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd...**

- **Pan ganfyddir bod twf economaidd yn ymwneud yn unig â Chynnyrch Domestig Gros neu Werth Ychwanegol Gros.**
- **Pan fydd sefydliadau'n gweithio mewn seilos, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer ymagweddau cydgysylltiedig a meddylfryd arloesol.**
- **Pan fydd adnoddau naturiol yn cael eu masnachu a'u gwerthu, heb ystyried effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.**
- **Pan fydd technoleg carbon isel yn cael ei weld fel rhywbeth costus sy'n creu risg uchel.**
- **Pan fydd sefydliadau'n methu annog diwylliant o waith gweddus, er enghraifft drwy fynd i'r afael â bylchau cyflog rhwng y rhywiau neu gontractau dim-oriau.**





Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru Lewyrchus

## 4: Ynni cymunedol a chymdeithas garbon isel

Galluogi sefydliadau a chymunedau i leihau allyriadau  
a defnyddio ynni carbon isel



## Diffinio'r mater

Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol, sy'n gofyn am weithredu uchelgeisiol ar frys ac arweinyddiaeth. Yn 2016 gosododd Deddf Amgylchedd (Cymru) dargedau yng Nghymru ar gyfer lleihau allyriadau o 80% o leiaf erbyn 2050, yn erbyn llinell sylfaen 1990.

Yn Ebrill 2019, dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC, ei bod [yn argyfwng ar yr hinsawdd yng Nghymru](#). Amcan y datganiad hwn oedd amlygu arwyddocâd y protestiadau newid

hinsawdd a'r dystiolaeth oddi wrth [Adroddiad Arbennig](#) Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPPC) ar effeithiau cynhesu byd-eang.

Mae Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd ers hynny wedi awgrymu bod angen i'r targedau a nodwyd yn Neddf Amgylchedd (Cymru) fod yn fwy uchelgeisiol, gyda Chymru'n anelu at leihad o 95% mewn allyriadau i ennill allyriadau sero net ddim hwyrach na 2050, a bydd yn cyflwyno rheoliadau i'r Cynulliad i ddiwygio'r targed presennol o 80%. Mae [Cymru Carbon Isel](#) yn rhestru nifer o feysydd ar gyfer newid polisi ac rydyn ni hefyd

wedi ymrwymo i fod yn sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

Mae gan fentrau cymunedol fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Gwnaeth adroddiad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar fanteision cymdeithasol ac economaidd ynni cymunedol dynnu sylw at y cynnydd mewn awtonomi, grym a chydnerthedd drwy ddarparu incwm hirdymor a rheolaeth gymunedol dros gynhyrchu cyfoeth. Mae elw a gynhyrchir yn cael ei gadw o fewn y gymuned ac yn aml yn cael ei fuddsoddi mewn mentrau ynni adnewyddadwy pellach, effeithlonrwydd tanwydd a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae cynyddu'r gwariant gyda BBaChau lleol sy'n gweithio ym meysydd cynhyrchu ynni ac ôl-osod hefyd yn atal arian rhag symud allan o'r ardal leol.

Mae effeithlonrwydd tanwydd a chynhyrchu ynni'n medru helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd tra'n lleihau allyriadau. Mae gan dlodi tanwydd effeithiau niweidiol ar lesiant ac fe'i cysylltir â chanlyniadau iechyd gwael. Er enghraifft, darganfu'r [adolgyiad Marmot i mewn i anghydraddoldebau iechyd](#) bod plant sy'n byw mewn cartrefi oer yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau anadlol ac iechyd meddwl na'r rhai hynny'n byw mewn cartrefi cynnes.

### Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



**Taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang**

**Pwnc 4:** Defnyddio adnoddau'n effeithlon



**Taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang**

**Pwnc 5:** Buddsoddi a gwaredu teg a moesegol



## Gwneud **Newidiadau** Syml

### Cyfrifwch, deallwch a

**chyhoeddwch** eich ôl-troed carbon a gosodwch dargedau i'w leihau dros y degawd nesaf i gynorthwyo uchelgais Llywodraeth Cymru i wireddu sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Gall yr [Ymddiriedolaeth Garbon](#) helpu sefydliadau i fesur eu hallyriadau, ac adnabod cyfleoedd.

E.e. Mae [Prosiect Carbon Bositif Cyfoeth Naturiol Cymru'n](#) ymagwedd uchelgeisiol tuag at ddeall eu heffaith carbon ac adnabod cyfleoedd i fynd i'r afael ag ef. Fel enghraifft i eraill eu dilyn, mae'n awgrymu ffocysu ar 4 maes: adeiladau, trafniadaeth, caffael a defnydd tir.

**Nodwch gyfleoedd** ar gyfer lleihau eich allyriadau o'ch adeiladau/ystâd, trafniadaeth, caffael a defnydd tir, a sefydlwch brosiectau peilot i gynorthwyo gweithredu ar y rhain.

**Adolygwch eich polisi** ar allyriadau carbon drwy wneud iawn am y carbon yr ydych yn ei gynhyrchu drwy gynorthwyo mentrau mewn mannau eraill, drwy **gynlluniau achrededig**.

E.e. Mae [carbon niwtral](#) yn offeryn defnyddiol i gynorthwyo hyn.

**Sicrhewch fod datblygiadau newydd**, ac ôl-osod cyfleusterau presennol yn ystyried ffynonellau ynni adnewyddadwy a deunyddiau wedi eu hailgylchu gan ddefnyddio cyflenwyr lleol ble mae hynny'n bosibl.

E.e. Wrth gyflawni Arbed 2, defnyddiodd **Cartref Melin** gyflenwyr o FBaChau. Canolbwyntiodd tendr ERDF Arbed 2 yn drwm ar fudd cymunedol a fyddai'n cael ei fesur gan Offeryn Mesur Budd Cymunedol Llywodraeth Cymru.

ee

ee

ee

## Gwneud **Newidiadau** Syml

**Hyrwyddwch** [deithio llesol](#) drwy eich holl sefydliadau.

E.e. [Cynllun Beicio i'r Gwaith](#) **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd** a'r Fro a chefnogwch yr Her [Feicio'r Gweithle](#) i annog a hyrwyddo teithio llesol i staff.

**Aseswch ehangder** [darpariaeth](#) manau gwefru cerbydau trydan yn eich eiddo: gweithleoedd, datblygiadau masnachol ac ardaloedd preswyl.

E.e. [Cyngor Sir Fynwy](#).

**Defnyddiwch eitemau i'w hail-ddefnyddio/ailgylchu**

ar draws eich ystâd (dodrefn, papur, nwyddau electronig) gan ddefnyddio mentrau cymdeithasol ble mae hynny'n bosibl.

E.e. Mae [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) a [Chyngor Abertawe](#) wedi ailwampio'u swyddfeydd drwy ailgylchu deunyddiau.

**Helpwch i gynyddu perchnogaeth leol o gynhyrchu**

ynni drwy archwilio dulliau o gynorthwyo grwpiau cymunedol (yn cynnwys cyllid) i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar dir cyhoeddus.

## Bod Yn Fwy Anturus

**Gwnewch** ddatganiad am argyfwng hinsawdd a sicrhewch fod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gynorthwyo gyda chynllun gweithredu clir am y modd y byddwch yn lleihau allyriadau drwyddi draw yn eich adeiladau/ystâd, trafndiaeth, caffael a defnydd tir. Mae Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel yn rhestru'r polisiau a'r cynigion ar gyfer helpu i gyflawni ymrwymiad Cymru i'r newid yn yr hinsawdd.

**Nodwch** sut y gall caffael a'ch cylch gyllideb gynorthwyo lleihau carbon ym mhob peth yr ydych yn ei wneud fel sefydliad.

E.e. Pleidleisiodd **Cyngor Caerdydd** i gael gwared â chwmnïau tanwydd ffosil o'u [Cronfa Bensiwn](#).

**Sicrhewch fod** o leiaf 75% o'ch ynni'n dod o ffynonellau adnewyddadwy.

E.e. Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi symud trydan eu swyddfa i dariff adnewyddadwy gant y cant.

**Defnyddiwch** ynni o ffynonellau carbon isel megis darparwyr ynni adnewyddadwy, cynhyrchiant ynni cynaliadwy ar y safle, neu gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol.

E.e. Ymddiriedolaeth arloesi ynni cymunedol [Awel Aman Tawe](#). Mae [Ynni Cymunedol Abertawe'n](#) enghraifft flaenllaw o'r modd y gallwch ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy i ennill canlyniadau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi diwygio eu cynllun peilot i osod [Pŵer Solar yn eu holl ysgolion](#) ac yn defnyddio cerbydau trydan megis pryd ar glud a [thrafnidiaeth gyhoeddus](#).

**Ystyriwch** a gweithredwch gynhyrchu ynni carbon isel yn eich adeiladau a'ch cyfleusterau (ôl-osod ac adeiladau newydd).

## Bod Yn Fwy Anturus

**Cynorthwywch** ac ysgogwch staff ac ymwelwyr i ddefnyddio teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus, dewisiadau gweithio hyblyg, a'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn (drwy gyfrwng seilwaith mannau gwefru a threfniadau fflyd/trefniadau caffael) yn eich safle.

E.e. Ymrwymodd nifer o sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghaerdydd yn Ebrill 2019 i gynorthwyo ac annog eu staff ac ymwelwyr i'w safleoedd i ddefnyddio dulliau iach o deithio, drwy gefnogi'r [Siarter Teithio Iach](#).

**Nodwch** a mapiwch ardaloedd ar gyfer plannu coed yn y dyfodol (targedwch 20% o orchudd coed mewn ardaloedd trefol), gydag ystod amrywiol o rywogaethau, addas ar gyfer yr hinsawdd, pridd a rhoi 'gwerth i natur'.

E.e. Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Dinbych** yn bwriadu cynyddu gorchudd coed yn Y Rhyl (uchelgais bum mlynedd o 18,000 o goed i'w plannu) yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a'r gymuned ar hyn, gyda diwrnodau plannu etc.


**Cefnogwch leihau trethi ar gynlluniau ynni cymunedol.**

E.e. Gwnaeth **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** [ddileu trethi Awel Co-op gant y cant](#).


**Sefydlwch gwmni** ynni cymunedol a defnyddiwch yr elw i ariannu datblygiad menter leol.

E.e. Sefydlodd **Cyngor Abertawe** [Gynllun Ynni a Menter Gymunedol Abertawe](#), gan roi cymorth swyddog drwy gydol datblygiad y prosiect. Tra bo anghenion y gymuned yn debygol o newid dros amser, mae'r cyllid hwn yn debygol o gael ei wario ar brosiectau adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni, trafndiaeth garbon isel, newid tariff, ymwybyddiaeth o ynni, mannau agored cymunedol, datblygu menter, costau cychwyn busnes, datblygu sgiliau, hyfforddiant a thiwtora.


## Bod Yn Fwy **Anturus**



**Cydweithiwch** gyda grwpiau cymunedol ar y modd y gallent ddefnyddio eich adeiladau, gofod ar y to a thir (sy'n eiddo i'r cyhoedd) ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy. Gweithiwch gyda grwpiau i ddatblygu dulliau o hwyluso hyn, megis datblygu templedi lles hawdd eu defnyddio.



**Gweithiwch gydag eiriolwyr newid yn yr hinsawdd lleol.**



E.e. Yn Sir Fynwy mae'r gymuned yn medru gweithio'n well gyda'i gilydd gyda'r Cyngor ac i'r gwrthwyneb, gydag Eiriolwyr Hinsawdd Lleol yn ffurfio rhwydwaith unigryw a gwerthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth ar brosiectau, grantiau, cyfleoedd a.y.y.b.

## Perchnogi'r Uchelgais

### Gweithredu cenedlaethol a chydweithredol

#### Cynorthwywch y sector cyhoeddus

i fonitro ac adrodd ar gynnydd tuag at fod yn garbon niwtral erbyn 2030, i'w gefnogi drwy gyfrwng rhaglen i hyfforddi sector cyhoeddus llythrennedd carbon.

**Buddsoddwch** i gynorthwyo'r argyfwng hinsawdd. Mae [cynllun 10 pwynt](#) Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ariannu'r argyfwng hinsawdd yng Nghymru'n awgrymu buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus, teithio llesol, tai ac adeiladau, ynni adnewyddadwy, defnydd tir ac ysgogiadau eraill megis caffael a buddsoddiadau pensiwn.

**Gweithredwch** dair blaenoriaeth Cymru a nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol: cyflwyno datrysiadau seiliedig ar natur; cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnodd a, mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar le.

**Ariannwch y dyfodol** drwy ysgogiad [economaidd carbon isel](#), ar unwaith, fel y gall Cymru gyflymu buddsoddi a gweithredu ar ynni adnewyddadwy (yn ogystal ag effeithlonrwydd ynni).

**Cynyddwch** fuddsoddiad mewn teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Lleiafswm o 10% o gyllid trafndiaeth (ac 20% o gyllid cyfalaf) yng Nghymru i'w ddyrannu i deithio llesol ac o leiaf 50% o gyllideb cyfalaf trafndiaeth genedlaethol i'w ddyrannu i wella trafndiaeth gyhoeddus.

**Sicrhewch fod datgarboneiddio'n** egwyddor a sbardun allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn cynllunio, contractau caffael y sector cyhoeddus a buddsoddiadau'r gronfa bensiw.

**Cefnogwch** yr argymhellion a'r gweithrediadau a nodir yn adroddiad [Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell](#); (Gorffennaf 2019) yn galw am raglen uchelgeisiol o weithredu i ddatgarboneiddio cartrefi Cymru.

**Cefnogwch** fabwysiadu arferion amaethyddol carbon isel ac arfer defnyddio tir, gan gwrdd â'r targed diwydiannol o fod yn garbon niwtral erbyn 2040.

**Sicrhewch** gynnydd radical mewn gorchudd coed gan adfer mawndir diraddiedig yng Nghymru dros y ddau ddegawd nesaf.

## Perchnogi'r Uchelgais

**Anogwch** bob sefydliad i ddatblygu strategaeth ynni ar gyfer y dyfodol sy'n nodi safleoedd ac sy'n cynorthwyo ynni adnewyddadwy a datblygiad carbon isel erbyn 2020.

**Anogwch awdurdodau** cynllunio i ffafrio a rhoi pwys materol ar effaith cymdeithasol ac amgylcheddol ynni adnewyddadwy ar gymunedau a'r economi yn unol â [Pholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10](#).

**Y gymuned i fod yn berchen** ar rhwng 5% a 33% o [bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru](#) sy'n uwch na 5MW erbyn 2020.

**Polisi** cenedlaethol i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig 50% o ryddhad ardrethu busnes ar y cyfartaledd cymunedol o brosiectau sydd mewn perchnogaeth a rennir, a graddfa symudol o ryddhad ardrethu busnes i'r datblygwr yn gymesur â'r gyfran gymunedol.

**Mae** yna ymgyfraniad trefol mewn cyflenwad ynni, yn cynnwys perchnogaeth tyrbinau gwynt a ffermydd solar, sy'n helpu i greu swyddi, mynd i'r afael â thlodi tanwydd, anghydraddoldeb, a hwyluso'r newid i garbon isel.

E.e. Mae'r IWA yn argymhell bod Cymru'n edrych ar hyfywedd, cost ac amserlen sy'n gysylltiedig â sefydlu cwmni ynni lleol i Gymru: ['Energy for Wales'](#).

E.e. Lansiodd **Prifysgol Bryste** ei chwmni ynni ei hunan, [Bristol Energy](#). Mae'n cyflenwi nwy a thrydan wrth ail-fuddsoddi elw mewn prosiectau ynni cymunedol lleol. Er enghraifft, mae elw wedi cael ei fuddsoddi mewn 'Feel Good Fund' i helpu cartrefi mewn tlodi tanwydd.

**Rhoi mwy** o gymorth i sefydliadau cymunedol sy'n datblygu prosiectau a berchnogir ar y cyd. Dylai hyn gynnwys talu costau cyfreithiol y gymuned, cyllid pontio hygyrch, cymorth negodi masnachol, a chyfraddau llog isel ar fenthyciadau o Fanc Datblygu Cymru.



## Perchnogi'r **Uchelgais**

### **Mae gan Wasanaeth Ynni**

**Llywodraeth Cymru'r** adnoddau i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau sy'n galluogi mwy o ynni cymunedol a lleol yng Nghymru.

### **Galluogwch gyrff cyhoeddus**

sy'n cynorthwyo prosiectau ynni cymunedol lleol i gyfrif arbedion carbon o'r prosiectau hyn fel rhan o'u targedau.

### **Mae polisi cymunedol**

ar drosglwyddo asedau cymunedol yn cynnwys polisi sy'n rhoi caniatâd i'r sefydliadau cymunedol i gael yr opsiwn cyntaf, neu hawl i wneud cynnig ar dir cyhoeddus, i ddatblygu prosiectau adnewyddadwy erbyn 2020.

### **Cefnogaeth genedlaethol i**

sefydliadau yng Nghymru i greu partneriaeth gyda Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarth ar brosiectau arloesi rhwydwaith sy'n galluogi mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy o fewn seilwaith presennol.

## Perchnogi'r Uchelgais

### Gweithgareddau Sefydliadol

#### Hyrwyddwch ddatrysiadau

seiliedig ar natur a seilwaith gwyrdd ym mhob datblygiad. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar sut i wneud hyn yn ['Taith tuag at Gymru Gydnerth'](#) ac adroddiad [Seilwaith Gwyrdd Ymddiriedolaethau Natur Cymru](#).

**Cynorthwywch** gynhyrchu ynni lleol drwy drosglwyddo asedau tir i grwpiau ynni cymunedol, cyfraddau busnes is, cymorth busnes a buddsoddi cronfeydd pensiwn mewn ynni cymunedol.



E.e Prydlesodd **Cyngor Dinas Bryste** eu tir a buddsoddi mewn safle solar ffotovoltaig yn Bristol Energy Coop 4.2 yn Lawrence Weston, a gwblhawyd yn 2016. Defnyddir yr elw i ariannu prosiectau ar draws y Ddinas.

**Sicrhewch** fod tai cymdeithasol newydd yn cynnwys mesurau arbed ynni a chynhyrchu ynni, gan helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

E.e. 'Cartrefi fel Gorsafoedd' [Pobl Group](#) yn gweithio yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot a Phrifysgol Abertawe i integreiddio technoleg arloesol i'w cartrefi tu hwnt i'r cysyniad o gartrefi carbon niwtral gan symud tuag at orgynhyrchu ynni.

**Rydych** chi wedi ymrwymo adnoddau ac aelodau staff i gynorthwyo ymgyfraniad cymunedol effeithiol.

## Engbreifftiau ac adnoddau eraill

### Cytundeb Paris:

[https://ec.europa.eu/clima/policies/international/negotiations/paris\\_en](https://ec.europa.eu/clima/policies/international/negotiations/paris_en)

### Ffyniant i Bawb: [Cymru Carbon](#)

[IseI](#) yn offeryn defnyddiol gan Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'ch taith tuag at ddod yn ddi-garbon. Gweler tudalennau 53-55 ar gyfer arweinyddiaeth gyhoeddus sy'n cynnwys Polisi 20 ar niwtraliaeth carbon, Polisi 21 ar systemau gwresogi dosbarth, Polisi 23 ar Gaffael sy'n gwneud argymhellion penodol ar Gerbydau Fflyd ac Adeiladau.

### Mae adroddiadau Cyflwr yr Ystâd Llywodraeth Cymru

dros y blynyddoedd yn cynnwys astudiaethau achos defnyddiol ac ysbrydoledig ar [Leihau Carbon](#) (tudalen 30), [Effeithlonrwydd ac Ynni Adnewyddadwy](#) (tudalen 30) a [Bioamrywiaeth](#) (tudalen 31).

### Prosiect Carbon Bositif Cyfoeth Naturiol Cymru – adroddiadau ac adnoddau:

<https://naturalresources.wales/about-us/corporate-information/carbon-positive-project/?lang=cy>

### IWA's Re-energising Wales 'How to protect, promote and achieve scale in community and local ownership of renewable energy in Wales':

[https://www.iwa.wales/wp-content/uploads/2018/11/IWA\\_Energy\\_WP4.1-1-1-1.pdf](https://www.iwa.wales/wp-content/uploads/2018/11/IWA_Energy_WP4.1-1-1-1.pdf)

### Cynllun 10 pwynt Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ariannu argyfwng hinsawdd Cymru:

<https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/06/Cynllun-10-Pwynt-i-Ariannu-Argyfwng-Hinsawdd-Cymru-Adroddiad-Manwl.pdf>

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth Garbon gant a mil o adnoddau defnyddiol:

<https://www.carbontrust.com/client-services/advice/public-sector-advice/>

[www.carbontrust.com/client-services/wales/](http://www.carbontrust.com/client-services/wales/)

## Enghreifftiau ac adnoddau eraill



**Sut fedr Cymru dyfu perchnogaeth leol o ynni adnewyddadwy:**

<http://senedd.assembly.wales/documents/s69697/Paper%20-%20Regen%20South%20West.pdf>



**Pwysigrwydd ynni a gynhrychir yn lleol:**

<https://www.goodenergy.co.uk/blog/2018/01/02/the-importance-of-local-energy/>



**Prosiect micro-ynni dŵr Croeso i'n Coedwig (Treherbert):**

<http://welcometoourwoods.ac4.amitywebsolutions.co.uk/cy/cartref/>